

# YSGOL SEFYDLEDIG CAERGEILIOG FOUNDATION SCHOOL



## DATGANIAD DIOGELU'R YSGOL

Mae ein Hysgol yn ymfalchïo yn ei hymrwymiad i 'WASANAETH O OFAL' ac yn cydnabod bod cadw plant yn ddiogel yn gyfrifoldeb i bawb.

Mae gan blant yr hawl i gael gofal a chael eu hamddiffyn. Mae eu hamddiffyn yn gyfrifoldeb i bawb ac yn unol â'n dyletswydd gofal rydym yn sicrhau bod pob defnyddiwr yn cael ei gadw'n ddiogel rhag niwed.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel a chefnogol lle gall ein disgyblion ddatblygu a thyfu'n oedolion aeddfed a chyfrifol. Mae diogelu plant yn rhan hanfodol o'n dull cyfannol o sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod a bod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial.

Mae gan staff, gwirfoddolwyr a darparwyr gwasanaeth yr Ysgol ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant fel cyfrifoldeb a rennir gyda rhieni a gofalwyr eraill. Os oes gennym unrhyw reswm i gredu y gallai plentyn fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, byddwn yn ei atgyfeirio i ofal cymdeithasol.

Fel Ysgol byddwn yn cefnogi rhieni/gofalwyr ac yn sicrhau ein bod yn cydweithio â nhw i amddiffyn plant. Gweithio gyda rhieni/gofalwyr i atal cam-drin yw ein prif nod a dim ond pan fydd hynny wedi methu neu mewn sefyllfaoedd brys y gwneir atgyfeiriad i ofal cymdeithasol. Pan wneir atgyfeiriad i ofal cymdeithasol, caiff rhieni eu hysbysu ymlaen llaw, ac eithrio pan na fydd arweiniad gan ofal cymdeithasol neu'r heddlu yn caniatáu hyn.

Ni allwn ddiogelu plant ar ein pennau ein hunain. Mae'r holl wasanaethau ac asiantaethau plant yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd. Mae yna ddyletswyddau a rheolau ynglŷn â rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, os yw staff,

mae gan rieni neu ofalwyr unrhyw bryderon am blentyn, mae ganddynt gyfrifoldeb i adrodd am y pryderon hynny a rhaid inni eu cofnodi a gweithredu arnynt.

Yn Ysgol Sefydledig Caergeiliog mae ein Polisi Diogelu yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Mae'r polisi'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc waeth beth fo'u rhyw, ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb neu grefydd. Mae'n ofynnol yn ein Hysgol bod pob defnyddiwr yn cael gwybod am y polisiâu a'r canllawiau ymarfer hyn a'r hyn y dylent ei wneud os oes ganddynt bryderon. Mae ein Polisi Diogelu ar gael o Swyddfa'r Ysgol a gellir ei ganfod hefyd ar Wefan yr Ysgol.

Os oes gennych unrhyw bryderon am arferion ein staff, siaradwch â'r Arweinydd Diogelu Dynodedig.

### **Beth allwch chi ei wneud**

Mae rhieni a gofalwyr yn chwarae rhan mewn diogelu plant yn eu cymuned. Os oes gennych unrhyw bryderon, ni waeth pa mor fach ydynt, dylech roi gwybod amdanynt i rywun yr ydych yn ymddiried ynndo a fydd yn gwranddo. Mae'n ofynnol i'r Ysgol gael Arweinwyr Diogelu Dynodedig i'r diben hwn a dylai rhieni a phlant siarad ag un o'r swyddogion hyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn neu aelod o staff.

### **Ein Harweinwyr Diogelu Dynodedig yn yr ysgol yw:**

**Simon Browne – Dirprwy Bennaeth /Athro Blwyddyn 6**

**Lindsea Roberts – Arweinydd y Cyfnod Sylfaen/Athrawes Blwyddyn 2**

**Elizabeth Owens – Cydlynnydd ADY – Athrawes Blwyddyn 4**

**Arweinwyr Diogelu Dynodedig – Corff Llywodraethu: -**

**Karen McCarter**

**Leiah Roberts**

Os credwch y gallai plentyn neu berson ifanc fod mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch 999.

Fel arall cysylltwch â: swyddogion Teulu Môn ar 01248 725 888

Ar gyfer y Tîm Dyletswydd Gofal Cymdeithasol Plant ffoniwch:- 01758 870455

Ffoniwch y tu allan i oriau: - 01248 353551